**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: JJ/01722/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Awst 2022

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Awst 2022.

Er nad yw adrodd gan awdurdodau cyhoeddus yn orfodol ar hyn o bryd, maent yn cael eu cefnogi'n dda a'u hannog yn gryf i wneud hynny – er enghraifft drwy ein Canllaw i'r sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero net.

Y llynedd, gweithiodd ystod eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau lleol, ar gyflenwi'r data perthnasol i helpu Llywodraeth Cymru i gyfrifo ôl troed carbon y sector cyhoeddus yng Nghymru, a byddant yn parhau i wneud hynny eleni.

Cafodd y ffin weithredol ar gyfer y broses adrodd newydd hon yn y sector cyhoeddus ei datblygu ar y cyd yn ystod gweithdy o gynrychiolwyr cyrff cyhoeddus wrth ddatblygu'r canllaw adrodd presennol, ac mae'r broses yn parhau i gael ei datblygu gyda mewnbwn eang gan randdeiliaid a gwersi a ddysgwyd.

Yn y lle cyntaf, y nod yw canolbwyntio ar yr allyriadau sydd o dan reolaeth weithredol y sector cyhoeddus yn uniongyrchol, a oedd yn golygu cynnwys allyriadau Cwmpas 1 a 2, a'r rhan fwyaf o allyriadau Gwmpas 3. Cafodd y canlyniadau cychwynnol eu coladu a'u rhannu ar ffurf adroddiad yn gynharach eleni, sef Data ac argymhellion Sero Net y Sector Cyhoeddus | LLYW.CYMRU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid oes gan y sector cyhoeddus reolaeth weithredol uniongyrchol dros lawer o’r penderfyniadau allweddol sy’n ymwneud â phensiynau a buddsoddiadau. Rwy’n deall bod wyth prif gronfa ar draws y llywodraethau lleol, sydd wedi cyfuno’r rhan fwyaf o’u buddsoddiadau, ac mae'r gronfa gyfunol hon wedi cyflwyno datganiad newid hinsawdd / datgarboneiddio. Mae’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at gadeiryddion y cronfeydd hyn, a chwrdd â nhw, i’w hannog i fynd ymhellach ac yn gyflymach, gyda pheth llwyddiant, ac ymrwymodd i weithio gyda’r sector cyhoeddus i gytuno ar strategaeth i ddatgarboneiddio pensiynau erbyn 2030, gan felly ddod â nhw’n fwy cydnaws â thargedau sero net presennol y sector cyhoeddus. Ategwyd hyn gan y cynnig y cytunodd y Senedd arno ar 24 Mai i weithio gyda’r sector cyhoeddus i gytuno ar strategaeth i ddatgarboneiddio pensiynau erbyn 2030.

Yn gywir,

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd